

**OMBWDSMON
GWASANAETHAU
CYHOEDDUS CYMRU**

**CYFRIFON BLYNYDDOL
AM Y FLWYDDYN
YN DIWEDDU
31 MAWRTH 2006**

OMBWDSMON GWASANAETHAU CYHOEDDUS CYMRU

CYFRIFON BLYNYDDOL AM Y FLWYDDYN YN DIWEDDU 31 MAWRTH 2006

Adroddiad yr Ombwdsmon

HANES A CHEFNDIR STATUDOL

Yn dilyn ymgynghoriad ar y cyd gan Brif Weinidog y Cynulliad Cenedlaethol ac Ysgrifennydd Gwladol Cymru, penderfynwyd, gyda chefnogaeth y pleidiau i gyd, y dylid cyfuno'r gwasanaethau a ddarperir gan y Comisiwn dros Weinyddu Lleol yng Nghymru, Comisiynydd Gwasanaethau Iechyd Cymru, ac Ombwdsmon Gweinyddiaeth Cymru yn un swyddfa. O ganlyniad, derbyniodd Deddf Ombwdsmon y Gwasanaethau Cyhoeddus (Cymru) Gydsyniad Brenhinol ar 7 Ebrill 2005. Cyn pasio'r Ddeddf, cefais fy mhenodi i bob un o'r swyddogaethau Ombwdsmon presennol fel y gallai'r gwaith cychwynnol o'u huno ddechrau. O 15 Gorffennaf 2005 ymlaen, fe'm penodwyd yn Ombwdsmon Tai Cymdeithasol Cymru dan Ddeddf Tai 1996 fel y'i diwygiwyd gan Ddeddf Tai 2004. Ar 12 Hydref 2005, pasiodd y Cynulliad Cenedlaethol orchymyn i ddechrau Deddf Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus (Cymru) 2005: daeth y mwyafrif llethol o'i darpariaethau i rym o 1 Ebrill 2006 ymlaen, ond daeth rhai darpariaethau, gan gynnwys rhai i alluogi penodi'r Ombwdsmon, i rym yn syth. Fe'm penodwyd yn ffurfiol yn Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru gan Ei Mawrhydi'r Frenhines ar argymhelliad Ysgrifennydd Gwladol Cymru, am gyfnod penodol o saith mlynedd yn dechrau ar 12 Hydref 2005.

CYFARWYDDYD CYFRIFON

O dan y Gyfarwyddeb Cyfrifon a gyflwynwyd gan Drysorlys Ei Mawrhydi ar 10 Mai 2006, rhoddwyd caniatâd i baratoi un cyfrif adnoddau ar gyfer Comisiynydd Gwasanaethau Iechyd Cymru, Ombwdsmon Gweinyddiaeth Cymru ac Ombwdsmon Tai Cymdeithasol Cymru ynghyd â chanlyniadau ariannol y Comisiwn dros Weinyddu Lleol yng Nghymru cyn belled ag y cawsant eu paratoi yn unol â'r egwyddorion cyfrifyddu a'r gofynion datgelu yn y rhifyn o *Financial Reporting Manual* (FReM) y Llywodraeth a gyhoeddir gan Drysorlys Ei Mawrhydi ac a oedd mewn grym ar gyfer 2005-06.

Mae'r cyfrifon wedi'u paratoi fel eu bod:

(a) yn rhoi darlun cywir a theg o'r sefyllfa fusnes ar 31 Mawrth 2006 ac o'r ffigurau adnoddau net terfynol, yr adnoddau a wariwyd ar amcanion, yr enillion a'r colledion cydnabyddedig a'r llifau arian am y flwyddyn ariannol a ddaeth i ben; a

(b) yn datgelu unrhyw wariant neu incwm sylweddol na chafodd ei ddefnyddio i'r pwrpas y bwriadwyd iddo gael ei ddefnyddio gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru neu unrhyw drafodion busnes o bwys nad oedd yn cydymffurfio â'r awdurdodau sy'n eu llywodraethu.

CYFRIFON CYFUN

Mae'r cyfrifon cyfun hyn am y cyfnod rhwng 1 Ebrill 2005 a 31 Mawrth 2006 yn rhai ar gyfer yr holl swyddi uchod ac yn ystyried y gwahanol ddeddfwriaethau y daeth y swyddi hyn oddi tanynt. Mae'r gofynion cyfreithiol ar gyfer paratoi cyfrifon wedi'u nodi isod:

Comisiwn dros Weinyddu Lleol yng Nghymru (CLAW)

Derbyniodd y Comisiwn grant gan Lywodraeth Cynulliad Cymru wedi'i frigidorri o'r Grant Cynnal Refeniw a ddyrennir i awdurdodau lleol yng Nghymru. Daeth Memorandwm Ariannol yn pennu'r trefniadau a gytunwyd rhwng Llywodraeth Cynulliad Cymru a'r Comisiwn (gyda chaniatâd y Trysorlys) i rym ym mis Mawrth 2005. Roedd y ddogfen yn cynnwys ymrwymiad i baratoi cyfrifon blynyddol.

Comisiynydd Gwasanaeth Iechyd Cymru (HSCW)

Mae'n ofynnol gan Baragraff 10 Atodlen 1A Deddf y Comisiynwyr Gwasanaeth Iechyd 1993, fel y'i diwygiwyd gan Atodlen 10 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998, i'r HSCW baratoi cyfrifon blynyddol.

Ombwdsmon Gweinyddiaeth Cymru (WAO)

Roedd rhaid i WAO baratoi cyfrifon blynyddol yn unol â Pharagraff 9 o Atodlen 9 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998.

Ombwdsmon Tai Cymdeithasol Cymru (SHOW)

Roedd yr ymrwymiad i gynhyrchu cyfrifon wedi'i gynnwys yn Atodlen 2A paragraff 13 Deddf Tai 1996 (fel y'i cynhwyswyd gan adran 228 Deddf Tai 2004) ac roedd yn ymdrin â'r cyfnod o 14 Gorffennaf 2005 pan sefydlwyd y swyddfa.

Diddymwyd yr holl ymrwymadau uchod o 1 Ebrill 2006 ymlaen, pan weithredwyd Deddf Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus (Cymru) 2005.

ARCHWILWYR

Archwilydd Cyffredinol Cymru yw Archwilydd Allanol cyfrifon Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru. Cost archwiliad 2005-06 oedd £14k. Datgelir £2.5k ychwanegol hefyd yn y cyfrifon hyn, sy'n ymwneud ag archwiliad 2004-05. Cyn belled ag yr wyf yn ymwybodol, nid oes unrhyw wybodaeth archwilio berthnasol nad yw'r archwilwyr yn ymwybodol ohoni, ac yr wyf wedi cymryd yr holl gamau y dylwn fod wedi'u cymryd i sicrhau bod yr archwilwyr yn gwybod am unrhyw wybodaeth archwilio berthnasol ac i sefydlu bod yr archwilwyr yn ymwybodol o'r wybodaeth honno.

NODAU AC AMCANION

Diben Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru yw ymchwilio'n annibynnol a diduedd i gwynion gan y cyhoedd am y ffordd y cawsant eu trin gan gorff cyhoeddus. Rwy'n disgwyl i gyrff cyhoeddus drin pobl yn deg, yn ystyriol ac yn effeithiol. Os caf fod cwyn wedi'i chyfiawnhau, argymhellaf gamau priodol i wneud iawn am y cam. Swyddogaeth bwysig arall sydd gennyf yw ymchwilio i gwynion bod aelodau awdurdod lleol wedi torri'r Cod Ymddygiad.

Fy nod yw rhoi gwasanaeth Ombwdsmon o'r radd flaenaf i Gymru trwy:

- (a) ymchwilio i gwynion mor drwyadl ag sy'n angenrheidiol ac mor gyflym ag sy'n bosibl
- (b) codi ymwybyddiaeth o wasanaeth yr Ombwdsmon a sicrhau ei fod ar gael yn rhwydd i ddarpar ddefnyddwyr
- (c) defnyddio gwersi a ddysgir yn sgîl fy ymchwiliadau i hybu ymarfer da a llywodraeth dda gan gyrff cyhoeddus
- (d) sicrhau llywodraeth dda a rheolaeth effeithiol o fewn fy swyddfa.

PRIF WEITHGAREDDAU

Y prif weithgareddau a gyflawnir gan Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru sy'n dod o dan y cyfrifon hyn oedd:

- (a) ymchwilio i gwynion oddi wrth aelodau'r cyhoedd yn erbyn awdurdodau lleol yng Nghymru;
- (b) ymchwilio i honiadau yn erbyn aelodau awdurdodau lleol (gan gynnwys cynghorau tref a chynghorau cymuned) o dorri cod ymddygiad eu hawdurdod i aelodau;
- (c) ymchwilio i gwynion oddi wrth aelodau'r cyhoedd yn erbyn cyrff y GIG, ymarferwyr gwasanaethau iechyd teuluol a darparwyr annibynnol gwasanaethau'r GIG yng Nghymru;

- (d) ymchwilio i gwynion yn erbyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru a chyrrff cyhoeddus a noddur gan y Cynulliad; ac
- (e) ymchwilio i gwynion yn erbyn landlordiaid cymdeithasol cofrestredig.

SYLWADAU RHEOLI

Yn dilyn y newidiadau ar ddiwedd blwyddyn ariannol 2004-05, sef:

- (a) uno swyddfa CLAW a swyddfa HSCW / WAO ar un safle ym Mharc Bocam, Pencoed;
- (b) datblygu system gyfrifiadurol newydd i reoli achosion cwynion; a
- (c) newidiadau sylweddol i weithdrefnau gweithredu a strwythurau staffio; bu hon yn flwyddyn o redeg cysgodol cyn y newidiadau deddfwriaeth sy'n codi o Ddeddf Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus (Cymru) 2005. Fel gydag unrhyw gorff newydd, mae adolygiadau rheolaidd wedi'u cynnal ar effaith y newidiadau. Bu raid cryfhau'r Tîm Asesu a phenodi Rheolwyr Ymchwilio i gefnogi'r ddau Gyfarwyddwr i reoli eu timau ymchwilio, o ystyried y cynnydd parhaus mewn baich achosion. Mae'r sefydliad wedi ymateb yn dda i'r newidiadau, ac mae'r holl broses wedi rhedeg yn ddiraffferth. Y Cyngor Cynrychiadol yw'r fforwm o hyd ar gyfer ymgynghori â chynrychiolwyr undebau lleol ar faterion sy'n effeithio ar staff.

Nodir cyflawniad y flwyddyn ddiwethaf yn fwy manwl yn adroddiad blynyddol statudol 2005-06. Derbyniwyd cyllid o £2.68 miliwn gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru. Nid oedd y swm hwn wedi'i ymrwymo'n llawn oherwydd ansicrwydd ar ddiwedd y flwyddyn dros ariannu'r diffyg o ganlyniad i aelodaeth o'r Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol. Mae trafodaethau'n parhau o hyd rhwng Llywodraeth Cynulliad Cymru a Chronfa Bensiwn Caerdydd a'r Fro ar faint y diffyg yn y Gronfa sy'n ymwneud â CLAW a'r ffordd o'i ariannu.

Yr oedd Swyddfa'r Ombwdsmon Seneddol a Gwasanaeth Iechyd (OPHSO) yn parhau i ddarparu rhai gwasanaethau penodol, yn benodol, darparu barn glinigol arbenigol ar gwynion GIG, drwy gytundeb lefel gwasanaeth. Mae unrhyw gostau wedi eu cynnwys yn y cyfrifon hyn yn y cyfnod y cawsant eu talu. Dangosir yr holl bolisiau cyfrifyddu mabwysiedig perthnasol yn Nodyn 1 ar gyfer y cyfrifon. Ni fu unrhyw wriad o'r gofynion yn y *Financial Reporting Manual* na chafodd ei ddatgelu yn y cofnodion.

BUSNES HYFYW

Roedd y Fantolen ar 31 Mawrth 2006 yn dangos ecwiti trethdalwr negyddol ar ôl ystyried y diffygion sy'n codi o ddau o'r tri threfniant pensiwn. Roedd y diffygion hyn yn adlewyrchu ymrwymadau a ddaw'n ddyledus mewn blynyddoedd i ddod sydd i'w hariannu gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru fel sy'n ofynnol gan y Ddeddf Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus (Cymru). Gofynnwyd am ddarparu'r symiau sydd eu hangen ar gyfer 2006-07 ac nid oes unrhyw reswm dros gredu na roddir darpariaeth yn y dyfodol. Felly, ystyriwyd mai priodol oedd mabwysiadu sylfaen fusnes hyfyw ar gyfer paratoi'r datganiadau ariannol hyn.

LLYWODRAETHU CORFFORAETHOL

Yng nghyswllt swydd Comisiynydd Gwasanaethau Iechyd Cymru, swydd Ombwdsmon Gweinyddiaeth Cymru a swydd Ombwdsmon Tai Cymdeithasol Cymru, gweithredais fel corfforaeth un aelod ac yr oeddwn i, fel Comisiynydd Lleol, ac Ann Abraham fel y Comisiynydd Gweinyddiaeth Seneddol, gyda'n gilydd, yn ffurfio'r Comisiwn dros Weinyddu Lleol yng Nghymru. Fi oedd y Swyddog Cyfrifyddu ar gyfer swydd Comisiynydd Gwasanaethau Iechyd Cymru, swydd Ombwdsmon Gweinyddiaeth Cymru a swydd Ombwdsmon Tai Cymdeithasol Cymru. Ar gyfer swydd Comisiynydd dros Weinyddu Lleol yng Nghymru, roeddwn yn is-swyddog cyfrifyddu dan Swyddog Cyfrifyddu Cynulliad Cenedlaethol Cymru.

TÂL

Dangosir manylion fy nhâl yn yr Adroddiad Taliadau. Ni dderbyniodd Ann Abraham unrhyw dâl yn ei swyddogaeth fel aelod "ex-officio" o CLAW yn rhinwedd ei swydd.

YMRWYMIADAU PENSIWN

Caiff yr ymrwymadau pensiwn i weithwyr presennol a chyn-weithwyr eu darparu drwy'r canlynol:

- (a) Prif Gynllun Pensiwn y Gwasanaeth Sifil (PCSPS);
- (b) Cynllun Pensiwn Llywodraeth leol a weinyddir drwy Gynllun Pensiwn Caerdydd a Bro Morgannwg (y Gronfa); ac
- (c) Y pensiynau a delir yn uniongyrchol i gyn-Gomisiynwyr neu eu dibynyddion.

Rhoddir manylion pellach yn Nodyn 3 y Cyfrifon hyn.

POLISI CYFLOGAETH

Mae Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru yn recriwtio yn ôl yr egwyddor o ddethol ar sail haeddiant drwy gystadleuaeth deg ac agored ac mae'n ymrwymedig i ddarparu cyfle cyfartal i bob aelod o staff. Mae Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru hefyd wedi ymrwymo i gydymffurfio â darpariaethau Deddf Gwahaniaethu ar Sail Anabledd 1995, yn ogystal â chwrdd â'r holl ofynion statudol eraill.

TALU CYFLENWYR

Mae Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru wedi ymrwymo i gydymffurfio â Rheoliadau Hwyr-daliad Dyledion Masnachol 2002. Y polisi talu yw y telir anfonebau yn unol ag amodau contract a gytunwyd arnynt, neu, lle nad oes amodau o'r fath, o fewn 30 diwrnod i fod wedi derbyn nwyddau a gwasanaethau neu gyflwyno anfoneb ddilys amdanynt, pa bynnag un sydd ddiweddaraf. Yn ystod 2005-06, talwyd 86% o anfonebau yn unol â'r polisi hwn (o'i gymharu ag oddeutu 95% yn 2004-05). Digwyddodd y lleihad mewn perfformiad o ganlyniad i orfod ailgyfeirio post i'r cyfeiriad newydd a'r oediadau cychwynnol mewn prosesu anfonebau drwy'r systemau newydd.

PWYLLGOR ARCHWILIO

Yn ystod y flwyddyn, sefydlwyd Pwyllgor Archwilio i'm cefnogi yn fy swyddogaeth fel Swyddog Cyfrifyddu. Y Cadeirydd annibynnol yw Laurie Pavelin CBE FCA, ac mae ganddo brofiad sylweddol o gyfrifyddu sector cyhoeddus a rheoli ariannol sy'n deillio o'i swyddogaeth flaenorol o fewn Cynulliad Cenedlaethol Cymru. Aelodau eraill y pwyllgor yw Elizabeth Thomas, yn ei swyddogaeth fel Cynghorydd Cyfreithiol Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru, ynghyd â mi, y Swyddog Cyfrifyddu.

Y DYFODOL

Bydd angen atgyfnerthu'r newidiadau sydd wedi digwydd eisoes, a chyflawni gwaith pellach i sicrhau trosglwyddiad llyfn parhaus o ran gweithredu Deddf Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus (Cymru) 2005 o 1 Ebrill 2006 ymlaen. Mae'r newidiadau mwyaf sylweddol i fy awdurdodaeth yn fy ngalluogi i ystyried cwynion o gamweinyddu yn erbyn Cyngorau Tref a Chymuned ac ystyried cwynion GIG yn gynharach.

DIGWYDDIADAU AR ÔL CAU'R FANTOLEN

Ni chafwyd unrhyw ddigwyddiadau ers dyddiad y fantolen na chawsant eu datgelu yn y cyfrifon hyn ac a fyddai'n effeithio'n faterol ar ddeall y datganiadau ariannol hyn.

Adam Peat

Swyddog Cyfrifyddu

5 Hydref 2006

ADRODDIAD TALIADAU

Ar 1 Ebrill 2005, roeddwn yn ddeilydd swyddi Comisiynydd Gweinyddu Lleol yng Nghymru, Comisiynydd Iechyd Cymru ac Ombwdsmon Gweinyddiaeth Cymru. Ar 14 Gorffennaf 2005, fe'm penodwyd yn Ombwdsmon Tai Cymdeithasol Cymru ac yna, ar 12 Hydref 2005, fe'm penodwyd yn Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru. Dim ond am fy swyddogaeth fel Comisiynydd Lleol y derbyniais unrhyw dâl. Graddiwyd y swydd i fod yn gyfwerth â Grŵp 6.1 y Strwythur Cyflog Barnwrol. O 1 Ebrill 2006, ailraddiwyd fy swydd fel Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru i Grŵp 5 y Strwythur Cyflog Barnwrol.

* Dyma fanylion fy hawliadau cyflog a phensiwn ar gyfer y flwyddyn yn diweddu 31

Mawrth 2006:

* Enw a theitl	Cyflog	Cynnydd gwirioneddol mewn pensiwn a'r cyfandaliad cysylltiedig	Cyfanswm y Pensiwn a gronwyd ar 31 Mawrth 2006	Gwerth Trosglwyddo sy'n Cyfateb i Arian y Pensiwn ar 31 Mawrth 2006	Gwerth Trosglwyddo sy'n Cyfateb i Arian y pensiwn ar 31 Mawrth 2005 (Wedi'i ailddatgan)	Gwir gynnydd mewn CETV a gyllidir gan y cyflogwr	Buddiannau ymarferol
	£000	£000	£000	£000	£000	£000	£000
Adam Peat Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru	115-119	6	51	1,176	940	35	-

Mae'r ffigurau cyflog a phensiwn a roddir yn y tabl uchod yn dangos yr hawliadau llawn. Darperir gwybodaeth ategol yn Nodiadau i-iii isod.

* Fe'm cynorthwyr i gyflawni fy nghyfrifoldebau gan Andrew Walsh ac Elizabeth Thomas, a chyda'n gilydd rydym yn ffurfio'r Uwch Dîm Rheoli. Fel a ddarperir ar ei gyfer yn DAO12/00, mae aelodau eraill yr Uwch Dîm Rheoli wedi atal eu caniatâd i ddatgelu eu manylion cyflog a phensiwn. Yr oedd eu cyflogau o fewn y raddfa gyflog £47k i £60k.

* Eitemau sy'n ddarostyngedig i archwiliad

Nodiadau

(i) Cyflog

Mae cyflog yn cynnwys cyflog gros, tâl neu fonws perfformiad; goramser; hawliau a gadwyd yn ôl i dderbyn lwfans Llundain; lwfansau recriwtio a chadw staff; lwfansau swyddfeydd preifat ac unrhyw lwfans arall i'r graddau ei fod yn ddarostyngedig i drethiant y DU.

(ii) Trefniadau pensiwn

Pensiynau'r Gwasanaeth Sifil

Darperir y budd-daliadau pensiwn hyn dan drefniadau pensiwn y Gwasanaeth Sifil.

Gwerth Trosglwyddo sy'n Cyfateb i Arian

Y Gwerth Trosglwyddo sy'n Cyfateb i Arian (CETV) yw gwerth cyfalafol y budd-daliadau yn y cynllun pensiwn a gronnwyd gan aelod ar unrhyw adeg, wedi ei asesu gan actiwari. Y budd-daliadau a brisiwyd yw budd-daliadau cronedig yr aelod ac unrhyw bensiwn wrth gefn sydd i'w dalu i bartner o dan y cynllun.

Taliad yw Gwerth Trosglwyddo sy'n Cyfateb i Arian, sy'n cael ei wneud gan gynllun neu drefniant pensiwn i bensiwn mewn cynllun neu drefniant pensiwn arall pan fydd aelod yn gadael cynllun ac yn dewis trosglwyddo'r budd-daliadau a gronnwyd yn eu cynllun blaenorol. Mae'r ffigurau pensiwn a ddangosir yn cyfeirio at fudd-daliadau a gronnwyd gan yr unigolyn o ganlyniad i'w (h)aelodaeth lawn yn y cynllun pensiwn, nid yn unig eu gwasanaeth mewn swydd uwch lle mae'n ofynnol datgelu. Mae'r ffigurau Gwerth Trosglwyddo sy'n Cyfateb i Arian, ac, o 2003-04 ymlaen, unrhyw fanylion pensiwn eraill, yn cynnwys gwerth unrhyw fudd-daliadau pensiwn mewn cynllun neu drefniant arall y mae'r unigolyn wedi eu trosglwyddo i drefniadau pensiwn y Gwasanaeth Sifil a lle mae Pleidlais y Gwasanaeth Sifil wedi derbyn taliad trosglwyddo sy'n union gyfateb i'r ymrwymadau pensiwn ychwanegol a wneir. Maent hefyd yn cynnwys unrhyw fudd-daliadau pensiwn ychwanegol a gronnwyd lle prynodd y gweithiwr flynyddoedd ychwanegol o wasanaeth pensiwn yn y cynllun o'i boced ei hun. Cyfrifir y Gwerth Trosglwyddo yn unol â'r canllawiau a'r fframwaith a gyflwynir gan Sefydliad a Chyfadrannau'r Actiwariaid.

Nodwch yr adolygwyd y ffactorau a ddefnyddir i gyfrifo'r Gwerth Trosglwyddo sy'n Cyfateb i Arian ar 1 Ebrill 2005 ar gyngor Actiwari'r Cynllun. Mae'r ffigur Gwerth Trosglwyddo sy'n Cyfateb i Arian ar gyfer 31 Mawrth 2005 wedi'i ail-ddatgan fel ei fod yn cael ei gyfrifo ar yr un sail â ffigur y Gwerth Trosglwyddo ar gyfer 31 Mawrth 2006.

Cynnydd gwirioneddol mewn CETV

Mae hwn yn adlewyrchu'r cynnydd mewn Gwerth Trosglwyddo sy'n Cyfateb i Arian sy'n cael ei ariannu gan y cyflogwr. Mae'n ystyried y cynnydd mewn pensiwn cronnol o ganlyniad i chwyddiant, y cyfraniadau sydd wedi eu talu gan y gweithiwr (gan gynnwys gwerth unrhyw fudd-daliadau a drosglwyddwyd o gynllun neu drefniant pensiwn arall), ac yn defnyddio ffactorau asesu gwerth marchnad gyffredin ar gyfer dechrau a diwedd y cyfnod.

(iii) Budd mewn Nwyddau

Mae gwerth ariannol unrhyw fudd mewn nwyddau yn cynnwys unrhyw fudd a roddir gan y cyflogwr ac sy'n cael ei drin gan Gyllid y Wlad fel budd trethadwy.

Adam Peat

Swyddog Cyfrifyddu

5 Hydref 2006

DATGANIAD O GYFRIFOLDEBAU'R SWYDDOG CYFRIFYDDU

1. O dan y deddfiadau, Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru fel Swyddog Cyfrifyddu neu Is-Swyddog Cyfrifyddu sy'n gyfrifol am baratoi'r cyfrifon am bob flwyddyn ariannol, yn unol â'r cyfarwyddyd gan y Trysorlys, gan roi manylion yr adnoddau a gaffaelwyd, y rhai a ddelir o hyd neu a waredwyd yn ystod y flwyddyn a'r adnoddau a wariwyd i gyflawni ei wahanol swyddi yn ystod y flwyddyn.
2. Paratwir y cyfrifon ar sail gronol a rhaid iddynt ddangos darlun gwir a theg o sefyllfaoedd busnes y swyddi a ddelir, y ffigurau adnoddau net terfynol, yr adnoddau a wariwyd ar amcanion, yr enillion a'r colledion cydnabyddedig a'r llifau arian am y flwyddyn ariannol.
3. Fel y Swyddog Cyfrifyddu neu'r is-swyddog cyfrifyddu, mae gan Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru gyfrifoldeb i baratoi cyfrifon y Swydd a'u trosglwyddo i Archwilydd Cyffredinol Cymru.
4. Wrth baratoi'r cyfrifon, mae'n ofynnol cydymffurfio â'r *Financial Reporting Manual* a baratowyd gan y Trysorlys, ac yn enwedig:
 - (a) glynu wrth y Cyfarwyddyd Cyfrifon a gyflwynwyd gan y Trysorlys, gan gynnwys y gofynion cyfrifyddu a datgelu perthnasol, a defnyddio polisïau cyfrifyddu addas yn gyson;
 - (b) gwneud penderfyniadau ac amcangyfrifon ar sail resymol;
 - (c) dynodi a ddilynwyd safonau cyfrifyddu perthnasol, a dadlennu ac esbonio unrhyw wriadau materol yn y cyfrifon; a
 - (d) pharatoi'r cyfrifon ar sail busnes byw.
5. Mae fy nghyfrifoldebau fel Swyddog Cyfrifyddu'n cynnwys y cyfrifoldeb dros briodoldeb a chysondeb yr arian cyhoeddus yr wyf i, fel Swyddog Cyfrifyddu, yn atebol amdano, tros gadw cofnodion priodol, a diogelu'r asedau, yn cael eu disgrifio ym Memorandwm y Swyddog Cyfrifyddu, a gyflwynir y Trysorlys ac a gyhoeddir yn *Government Accounting*.

DATGANIAD AR REOLAETH FEWNOL

1. Cwmpas Cyfrifoldeb

Fel Swyddog Cyfrifyddu, yr wyf yn gyfrifol am gynnal system gadarn o reolaeth fewnol sy'n cefnogi cyflawniad pwrpas Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru fel a ddiffinnir mewn statud ac yn ei nodau ac amcanion strategol, tra'n diogelu arian ac asedau cyhoeddus yr wyf yn bersonol gyfrifol amdanynt, yn unol â'r cyfrifoldebau a ddyrannwyd imi yn *Government Accounting*.

Yr wyf yn annibynnol ar Gynulliad Cenedlaethol Cymru, ond yn atebol i'w Bwyllgor Archwilio o ran defnyddio adnoddau y sicrheir eu bod ar gael i gefnogi fy swyddogaethau statudol.

2. Pwrpas y system rheolaeth fewnol

Mae'r system rheolaeth fewnol wedi ei dyfeisio i reoli risg i raddau rhesymol ac nid i ddileu pob risg o fethu â chyflawni polisiau, nodau ac amcanion; felly, dim ond sicrwydd rhesymol, ac nid absoliwt, o effeithiolrwydd y gall ei gynnig. Mae'r system rheolaeth fewnol yn seiliedig ar broses barhaus a ddyfeisiwyd i ganfod a blaenoriaethu unrhyw risg i gyflawniad fy mholisiau, nodau ac amcanion, i werthuso'r tebygolrwydd y bydd y risgiau hynny'n cael eu gwireddu, a'u heffaith pe bai hynny'n digwydd, ac i'w rheoli'n effeithiol, yn effeithlon ac yn economaidd. Mae'r system rheolaeth fewnol wedi'i datblygu gam wrth gam yn ystod blwyddyn ariannol 2005-6 ac fe'i datblygwyd ymhellach yn 2006-07 ar ôl creu Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru, ac mae'n cyd-fynd â chanllawiau'r Trysorlys.

3. Y gallu i reoli risg

Yr wyf yn parhau i weithredu trefniadau rheoli mewnol cadarn er mwyn sicrhau bod gan y Swyddfa y gallu i ganfod, asesu a rheoli risg yn effeithiol.

Yr Uwch Dîm Reoli a gadeirir gennyf sydd â'r cyfrifoldeb am oruchwylio rheoli risg. Mae'r prosesau'n cael eu datblygu er mwyn sicrhau y gellir rheoli risgiau corfforaethol a gweithredol yn ddiwyd. Yn ogystal, mae'r Pwyllgor Archwilio a sefydlwyd, ac sydd wedi cyfarfod ddwywaith, wedi ystyried adroddiad cychwynnol ar sefydlu cofrestr risg. Rwyf eisoes wedi elwa o brofiad sylweddol y cadeirydd, Mr Laurie Pavelin CBE FCA, mewn rheoli ariannol yn y sector cyhoeddus.

4. Y fframwaith risg a rheoli risg

Er mwyn sicrhau bod prosesau priodol ar waith, yr wyf wedi paratoi Fframwaith Llywodraethu Corfforaethol, sy'n cael ei weithredu o fewn yr amserlen a bennwyd yn y ddogfen honno. Mae hyn wedi cynnwys sefydlu'r Pwyllgor Archwilio y cyfeiriwyd ato uchod a phenodi Bentley Jennison yn Archwilwyr Mewnol.

Y mesurau a gyflwynir yw:

- (a) strwythur rheoli ynghyd â chyfarfodydd pellach a ddyfeisiwyd i ystyried risg ac effeithiolrwydd y system rheolaeth fewnol;
- (b) proses cynllunio busnes i werthuso perfformiad, cynlluniau a thargedau'r gorffennol ac i gyflwyno cynlluniau a thargedau ar gyfer y dyfodol; bydd y cynllun busnes am 2006-07 ac mewn blynyddoedd dilynol yn gwerthuso'r risgiau yng nghyswllt y rhain, a'r strategaethau ar gyfer eu rheoli;
- (c) proses o asesu risg a fydd yn golygu mapio meysydd risg allweddol sy'n effeithio ar gyflawniad ei hamcanion busnes. Bydd hyn yn goleuo penderfyniadau ac yn helpu i ddylanwadu ar y rhaglen archwilio mewnol; ac
- (d) o fewn y prosesau rheoli risg, cynhyrchu cynllun parhad busnes a fydd yn cael ei adolygu a'i brofi o bryd i'w gilydd i baratoi ar gyfer adfer gam wrth gam o ddigwyddiadau a fyddai'n amharu ar ein capasiti gweithredu.

5. Adolygiad o effeithiolrwydd

Fel y Swyddog Cyfrifyddu, yr wyf yn gyfrifol am adolygu effeithiolrwydd y system rheolaeth fewnol. Wrth gynnal adolygiad o'r fath, mae gennyf gefnogaeth y Pwyllgor Archwilio, ac yn dilyn penodiad Bentley Jennison yn Archwilwyr Mewnol, fe'm hysbysir o'u gwerthusiadau o'r system rheolaeth fewnol ynghyd ag unrhyw sylwadau a wnaed gan yr archwilwyr allanol yn eu llythyr rheoli ac adroddiadau eraill.

6. Problemau Sylweddol o ran Rheolaeth Fewnol

Nid wyf wedi profi unrhyw broblemau rheoli sylweddol, fel y'u diffinnir yn *Government Accounting*, yn ystod y flwyddyn.

Adam Peat

Swyddog Cyfrifyddu

5 Hydref 2006

TYSTYSGRIF AC ADRODDIAD ARCHWILYDD CYFFREDINOL CYMRU I AELODAU CYNULLIAD CENEDLAETHOL CYMRU

Rwyf yn tystio fy mod wedi archwilio datganiadau ariannol Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2006 dan baragraff 10 Atodlen 9 Deddf Llywodraeth Cymru 1998, paragraff 11 Atodlen 1A Deddf Comisiynwyr Gwasanaethau Iechyd 1993 a pharagraff 14 Atodlen 2A Deddf Tai 1996. Mae'r rhain yn cynnwys y Crynodeb o'r Alldro o ran Adnoddau, y Datganiad Costau Gweithredu, y Fantolen, y Datganiad Llif Arian a'r Datganiad Adnoddau yn ôl Nodau ac Amcanion Adrannol a'r nodiadau cysylltiedig. Paratowyd y datganiadau ariannol dan y polisiau cyfrifyddu a nodir ynddynt.

Cyfrifoldebau'r Swyddog Cyfrifyddu a'r Archwilydd, y naill a'r llall

Y Swyddog Cyfrifyddu sy'n gyfrifol am baratoi'r Adroddiad Blynyddol a'r datganiadau ariannol yn unol â pharagraff 9 Atodlen 9 Deddf Llywodraeth Cymru 1998, paragraff 10 Atodlen 1A Deddf Comisiynwyr y Gwasanaeth Iechyd 1993, paragraff 13 Atodlen 2A Deddf Tai 1996 a chyfarwyddiadau Trysorlys EM parthed hynny, ac am sicrhau cysondeb trafodion ariannol. Mae'r cyfrifoldebau hyn wedi'u hamlinellu yn y Datganiad o Gyfrifoldebau'r Swyddog Cyfrifyddu.

Fy nghyfrifoldeb i yw archwilio'r datganiadau ariannol yn unol â'r gofynion cyfreithiol a rheoliadol perthnasol a'r Safonau Archwilio Rhyngwladol (y DU ac Iwerddon) yr wyf wedi dewis eu mabwysiadu fel sail i fy null o archwilio'r datganiadau ariannol.

Rhoddaf i chi fy marn ynghylch a yw'r datganiadau ariannol yn rhoi darlun cywir a theg ac a yw'r datganiadau ariannol a'r rhan o'r Adroddiad Taliadau a archwilir wedi cael eu paratoi'n iawn yn unol â Deddf Llywodraeth Cymru 1998, Deddf Comisiynwyr y Gwasanaeth Iechyd 1993, Deddf Tai 1996, a chyfarwyddiadau parthed y rheini gan Drysorlys EM. Rwyf hefyd yn rhoi fy marn ynghylch a yw'r gwariant a'r incwm, ym mhob mater o bwys, wedi cael eu defnyddio at y dibenion y'u bwriadwyd gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru, ac a yw'r trafodion ariannol yn cydymffurfio â'r awdurdodau sy'n eu rheoli. Rwyf hefyd yn adrodd i chi os nad yw'r Adroddiad Blynyddol, yn fy marn i, yn gyson â'r datganiadau ariannol, os nad yw Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru wedi cadw cofnodion cyfrifyddu cywir, os nad wyf wedi derbyn yr holl wybodaeth a'r esboniadau sydd eu hangen arnaf ar gyfer fy archwiliad, neu os nad yw gwybodaeth a bennir gan awdurdodau perthnasol mewn perthynas â thaliadau a thrafodion eraill wedi'i datgelu.

Yr wyf yn adolygu a yw'r datganiad ar dudalennau 11 a 12 yn adlewyrchu cydymffurfiad Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru â chyfarwyddyd Trysorlys EM ar y Datganiad ar Reolaeth Fewnol, a byddaf yn adrodd os nad yw'n gwneud hynny. Nid oes gofyn i mi ystyried a yw datganiadau'r Swyddog Cyfrifyddu ar reolaeth fewnol yn cynnwys pob risg a rheolaeth, na ffurfio barn ar effeithlonrwydd gweithdrefnau llywodraethu corfforaethol na gweithdrefnau risg a rheolaeth Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru.

Yr wyf yn darllen y wybodaeth arall sydd wedi ei chynnwys yn yr Adroddiad Blynyddol i ystyried a yw'n gydnaws â'r datganiadau ariannol a archwiliwyd. Dim ond Adroddiad yr Ombwdsmon, y Sylwadau Rheoli a'r rhan o'r Adroddiad Taliadau sydd heb gael ei harchwilio yw'r wybodaeth arall hon. Rwy'n ystyried y goblygiadau i'm hadroddiad os dof yn ymwybodol o unrhyw gamdatganiadau neu anghysondebau o bwys yn y datganiadau ariannol. Nid yw fy nghyfrifoldebau yn ymestyn i unrhyw wybodaeth arall.

SAIL Y FARN ARCHWILIO

Rwyf wedi cynnal fy archwiliad yn unol â'r Safonau Archwilio Rhyngwladol (y DU ac Iwerddon) a gyhoeddwyd gan y Bwrdd Arferion Archwilio. Mae archwiliad yn golygu arolygu, ar sail prawf, tystiolaeth sy'n berthnasol i symiau, datguddiadau a chysondeb trafodion ariannol a gynhwyswyd yn y datganiadau ariannol a'r rhan o'r Adroddiad Taliadau a archwilir. Mae hefyd yn cynnwys asesiad o'r amcangyfrifon sylweddol a'r penderfyniadau a wnaed gan y Swyddog Cyfrifyddu wrth baratoi'r datganiadau ariannol, ac a yw'r polisïau cyfrifyddu yn addas i amgylchiadau Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru, a ddefnyddir hwy yn gyson ac a ddatgelir hwy yn ddigonol.

Bu i mi gynllunio a chynnal f'archwiliad er mwyn i mi dderbyn yr holl wybodaeth a'r esboniadau yr oeddwn yn eu hystyried yn angenrheidiol i gael tystiolaeth ddigonol er mwyn cael sicrwydd rhesymol nad yw'r datganiadau ariannol na'r rhan o'r Adroddiad Taliadau a archwilir yn cynnwys unrhyw gamddatganiad, pa un a achoswyd hynny trwy gamgymeriad neu dwyll, a bod y gwariant a'r incwm ym mhob modd o bwys wedi cael eu defnyddio i'r dibenion y bwriadwyd hwy gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru, a bod y trafodion ariannol yn cydymffurfio â'r awdurdodau sy'n eu llywodraethu. Wrth ffurfio barn, yr wyf hefyd wedi gwerthuso digonolrwydd cyffredinol y wybodaeth a gyflwynir yn y datganiadau ariannol a'r rhan o'r Adroddiad Taliadau a archwilir.

BARN

Yn fy marn i:

- mae'r datganiadau ariannol yn rhoi darlun cywir a theg, yn unol â Deddf Llywodraeth Cymru 1998, Deddf Comisiynwyr Gwasanaethau Iechyd 1993, Deddf Tai 1996, a'r cyfarwyddiadau a wnaed yn unol â hwy gan Drysorlys EM, o sefyllfa Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru ar 31 Mawrth 2006, ac o'r alldro net o ran adnoddau, adnoddau a ddefnyddiwyd i gyflawni amcanion, enillion a'r colledion cydnabyddedig a'r llifau arian am y flwyddyn a ddaeth i ben bryd hynny;
- mae'r datganiadau ariannol a'r rhan o'r Adroddiad Taliadau a archwilir wedi cael eu paratoi'n iawn yn unol â chyfarwyddiadau Trysorlys EM a gyhoeddwyd dan Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998, Deddf Comisiynwyr Gwasanaethau Iechyd 1993 a Deddf Tai 1996; ac
- ymhob modd materol, mae'r gwariant a'r incwm wedi cael eu defnyddio at y dibenion y'u bwriadwyd gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru, ac mae'r trafodion ariannol yn cydymffurfio â'r awdurdodau sy'n eu llywodraethu.

Nid oes gennyf unrhyw sylwadau i'w gwneud ar y datganiadau ariannol hyn.

Jeremy Colman
Archwilydd Cyffredinol Cymru
11 Hydref 2006

Swyddfa Archwilio Cymru
2-4 Park Grove
Caerdydd
CF10 3PA

CRYNODEB O'R FFIGURAU ADNODDAU TERFYNOL

am y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2006

	2005-06 Amcangyfrif			Alldro			2004-05
	Gwariant Gros	Incwm	Cyfanswm net	Gwariant Gros	Incwm	Cyfanswm net	Ffigurau terfynol y flwyddyn flaenorol
	£000	£000	£000	£000	£000	£000	£000
<i>Costau Gweinyddu</i>	2632	(8)	2624	2301	(7)	2294	330
<i>Cyfanswm Adnoddau</i>	2632	(8)	2624	2301	(7)	2294	330
<i>Gofynion Arian Parod Net Nodyn 2</i>			2681			2952	(271)

Mae'r nodiadau ar dudalennau 20 i 35 yn rhan o'r cyfrifon hyn

DATGANIAD YNGHYLCH Y COSTAU GWEITHREDU

am y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2006

	Nodyn	2005-06	2004-05
		£000	£000
Costau gweinyddol:			
Costau staff	3	1473	1266
Costau gweinyddol eraill heb fod yn rhai staff	4	828	547
Costau Gweinyddol Gros		2301	1813
Incwm Gweithredu	5	(7)	(16)
Costau Gweinyddol Net		2294	1797
COSTAU GWEITHREDU NET a FFIGURAU ADNODDAU NET TERFYNOL		2294	1797

Mae'r holl weithgareddau a ddechreuwyd o fewn y cyfnod yn parhau.

Datganiad Cyfanswm Enillion a Cholledion Cydnabyddedig

	Nodyn	2006	2005
		£000	£000
Am y flwyddyn yn diweddu 31 Mawrth			
Elw / (colled) Actiwaraidd ar Gynllun Pensiwn	3	<u>50</u>	<u>(120)</u>
Cyfanswm enillion (colledion) cydnabyddedig yn y flwyddyn		<u>50</u>	<u>(120)</u>

Mae'r nodiadau ar dudalennau 20 i 35 yn rhan o'r cyfrifon hyn

MANTOLEN

am y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2006

	Nodyn	2005-06	2004-05
		£000	£000
Asedau sefydlog			
Asedau sefydlog diriaethol	6	275	289
Asedau sefydlog anniriaethol	7	95	126
		<u>370</u>	<u>415</u>
Asedau Cyfredol			
Dyledwyr sy'n daladwy o fewn blwyddyn	8	266	66
Arian yn y banc ac mewn llaw	9	358	629
		<u>624</u>	<u>695</u>
Rhwymedigaethau cyfredol			
Credydwyr sy'n daladwy o fewn blwyddyn	10	(181)	(606)
Asedau cyfredol net		<u>443</u>	<u>89</u>
		813	504
Cyfanswm yr asedau llai rhwymedigaethau cyfredol			
Credydwyr sy'n ddyledus ar ôl blwyddyn	10	(63)	-
Darpariaethau	11	(812)	(884)
		<u>(875)</u>	<u>(884)</u>
		(62)	(380)
Diffygion y Gronfa Bensiwn	3	(840)	(920)
		<u>(902)</u>	<u>(1300)</u>
Ecwiti Trethdalwr			
Y Gronfa Gyffredinol	15	<u>(902)</u>	<u>(1300)</u>

Adam Peat

Swyddog Cyfrifyddu

5 Hydref 2006

Mae'r nodiadau ar dudalennau 20 i 35 yn rhan o'r cyfrifon hyn

DATGANIAD LLIF ARIAN

am y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2006

	Nody	2005-06	2004-05
	n	£000	£000
All-lif arian clir o weithgareddau gweithredu	16	(2560)	(1579)
Gwariant cyfalaf a buddsoddiad ariannol	17	(392)	(144)
Cyllid gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru		2681	2123
(Gostyngiad)/Cynnydd mewn Arian	18	(271)	400

Mae'r nodiadau ar dudalennau 20 i 35 yn rhan o'r cyfrifon hyn

ADNODDAU YN ÔL NODAU AC AMCANION

am y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2006

Amcan:	2005/2006			2004/2005		
	Gros £000	Incwm £000	Net £000	Gros £000	Incwm £000	Net £000
Delio gyda'r holl gwynion sy'n cael eu cyfeirio at Gomisiynydd Gwasanaethau Iechyd Cymru yn ddiudedd, yn wrthrychol, yn effeithiol ac yn ddiymdroi	287	-	287	474	-	474
Delio gyda'r holl gwynion sy'n cael eu cyfeirio at Ombwdsmon Gweinyddiaeth Cymru yn ddiudedd, yn wrthrychol, yn effeithiol ac yn ddiymdroi	72	-	72	118	-	118
Delio gyda'r holl gwynion sy'n cael eu cyfeirio at y Comisiwn dros Weinyddu Lleol yng Nghymru yn ddiudedd, yn wrthrychol, yn effeithiol ac yn ddiymdroi	1898	(7)	1891	1221	(16)	1205
Delio gyda'r holl gwynion sy'n cael eu cyfeirio at Ombwdsmon Tai Cymdeithasol Cymru o 14 Gorffennaf 2005 ymlaen	44	-	44	-	-	-
Costau gweithredu net	2301	(7)	2294	1813	(16)	1797

Mae'r nodiadau ar dudalennau 20 i 35 yn rhan o'r cyfrifon hyn

1. **Datganiad ynghylch y Polisiâu Cyfrifyddu**

Paratowyd y datganiadau ariannol yn unol â *Financial Reporting Manual* (FReM) y Llywodraeth, a gyhoeddir gan Drysorlys EM, ac sydd mewn grym ar gyfer 2005-06. Mae'r polisiâu cyfrifyddu yn y FReM yn dilyn yr arferion cyfrifyddu sy'n cael eu derbyn yn gyffredinol yn y DU (UK GAAP) ar gyfer cwmnïau, cyn belled ag y maent yn ystyrion ac yn briodol i'r sector cyhoeddus. Lle mae'r FReM yn caniatáu dewis polisi cyfrifyddu, mae'r polisi cyfrifyddu y tybiwyd iddo fod yr un mwyaf priodol i amgylchiadau arbennig y cyfrifon, i bwrpas rhoi darlun gwir a theg, yn cael ei ddethol. Disgrifir y polisiâu cyfrifyddu arbennig sydd wedi eu mabwysiadu gan Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru isod. Fe'u defnyddiwyd yn gyson wrth ddelio ag eitemau yr ystyrir eu bod o bwys mewn perthynas â'r cyfrifon.

1.1 **Confensiwn Cyfrifyddu**

Paratowyd y cyfrifon hyn o dan y confensiwn cost hanesyddol a addaswyd i ystyried unrhyw achos lle cafodd gwerth yr asedau sefydlog eu hail asesu yn ôl eu gwerth i'r busnes drwy gyfeirio at eu costau cyfredol.

1.2 **Asedau Sefydlog Diriaethol**

Mae gwariant wedi'i gyfalafu lle disgwylir i'r ased a brynwyd fod ag oes ddefnyddiol dros nifer o flynyddoedd a lle mae ei gost yn fwy na £1k. Dangosir asedau sefydlog diriaethol ar eu cost llai lwfans am ddibrisiad. Gall asedau sy'n costio llai na £1k gael eu cyfalafu ar yr amod eu bod yn rhai cyfalaf a bod cyfanswm eu gwerth dros £1k. Ar sail adnabyddiaeth gychwynnol, mesurir asedau sefydlog ar sail eu cost gan gynnwys costau megis costau gosod, y gellir eu priodoli'n uniongyrchol i fod yn rhai a ddefnyddiwyd i'w gweithredu ar gyfer y defnydd y bwriadwyd hwynt. Wrth adolygu costau'r asedau sefydlog y caffaelwyd yn flaenorol a'r prisiau a dalwyd am y caffaeliadau newydd yn ystod y flwyddyn, nid oes gwahaniaeth materol rhwng gwerth llyfr net hanesyddol yr asedau a'u cost adnewyddu llai dibrisiad.

Yn 2004-05, talwyd tâl gwasanaeth i Swyddfa Comisiynydd Gweinyddiaeth Seneddol a Chomisiynydd Gwasanaeth Iechyd Lloegr am ddefnyddio ei chyfarpar.

1.3 **Dibrisiant**

Mae asedau sefydlog diriaethol yn cael eu dibrisio yn ôl cyfraddau a gyfrifwyd i roi eu gwerth gweddilliol tybiedig ar sail llinell syth dros eu hoes ddefnyddiol dybiedig. Caiff asedau yn ystod y gwaith adeiladu eu dibrisio o'r pwynt y defnyddir yr ased gyntaf. Ac eithrio lle nodir hynny'n wahanol, tybiwyd bod eu hoes fel a ganlyn:

Dodrefn a ffitiadau	10 mlynedd
Costau ffio	10 mlynedd neu gyfnod y brydles os yw'n llai
Cyfarpar TG	3 i 5 blynedd
Cyfarpar cyfathrebu	10 mlynedd

1.4 **Asedau anniriaethol**

Mae trwyddedau meddalwedd cyfrifiadurol a brynwyd yn cael eu cyfalafu fel asedau sefydlog anniriaethol lle achosir gwariant o £1k neu fwy. Gall asedau anniriaethol sy'n costio llai na £1k gael eu cyfalafu ar yr amod eu bod yn rhai cyfalaf a bod cyfanswm eu gwerth dros £1k. Ac eithrio lle na ellir cadarnhau tystiolaeth ddibynadwy o'u gwerth cyfredol, caiff y rhain eu hail-ddatgan yn ôl eu gwerth cyfredol bob blwyddyn. Caiff trwyddedau meddalwedd eu hamorteiddio dros y tymor byrrach yn y drwydded a'u hoes economaidd ddefnyddiol.

1.5 **Tâl Cyfalaf**

Cynhwysir credyd yn y costau gweithredu sy'n adlewyrchu cost y cyfalaf a ddefnyddir gan Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru. Cyfrifir y tâl hwn yn ôl y gyfradd wirioneddol a bennir gan y Trysorlys (3.5% ar hyn o bryd) ar sail swm cario cyfartalog yr holl asedau, llai ymrwymadau ar wahân i falansau arian parod.

1.6 **Treth ar Werth**

Nid oedd swyddfeydd Comisiynydd Gwasanaethau Iechyd Cymru, Ombwdsmon Gweinyddiaeth Cymru ac Ombwdsmon Cymdeithasol Cymru wedi eu cofrestru ar gyfer TAW dros y cyfnod. Codir TAW na ellir ei adennill o dan y pennawd treuliau mwyaf priodol. Fodd bynnag, mae'r Comisiwn dros Weinyddu Lleol yng Nghymru yn gallu adennill unrhyw Dreth ar Werth yn llawn ac felly, pan fo'n briodol, dangosir unrhyw drafodion a wnaed gan y corff hwnnw yn glir (net) o Dreth ar Werth. Lle bo hynny'n briodol, adenillir y dreth fel pe bai'r corff wedi'i eithrio'n rhannol a'r meini prawf a ddefnyddir i bennu faint o dreth sydd i'w hadennill yw nifer y cwynion a dderbyniwyd yn ystod y chwarter gan bob un o'r swyddi a ddelir gan Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru.

1.7 **Pensiynau**

Mae'r ymrwymadau pensiwn i staff blaenorol a phresennol yn dod o dan ddarpariaethau Prif Gynllun Pensiwn y Gwasanaeth Sifil, sy'n bennaf yn un anghyfrannol a heb ei ariannu, ac o dan y Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol a weinyddir drwy Gynllun Pensiwn Caerdydd a Bro Morgannwg (y Gronfa) a thrwy daliadau uniongyrchol i'r tri Comisiynydd blaenorol dros Weinyddu Lleol yng Nghymru. Datgelir y manylion llawn yn y Nodiadau ar gyfer y Cyfrifon. Mae costau darparu'r pensiynau hyn yn cael eu cwrdd o'r Cyfrif Incwm a Gwariant.

1.8 **Costau gadael yn fuan**

Lle mae'n ofynnol i Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru dalu costau budd-daliadau ychwanegol sy'n fwy na'r budd-daliadau arferol a delir o dan y cynllun pensiwn priodol i weithwyr sy'n ymddeol yn gynnar, caiff y costau hyn eu cynnwys yn llawn ar y datganiad costau gweithredu pan fydd yr ymrwymiad penodol yn codi.

1.9 **Prydlesi Gweithredol**

Mae gwariant o dan y prydlesau gweithredu yn cael ei gynnwys ar y Datganiad Costau Gweithredu o fewn y cyfnod y mae'r gwariant yn digwydd. Yn achos prydlesi eiddo, darperir ar gyfer dadfeiliadau a all ddod yn daladwy ar ddiwedd y brydles.

1.10 **Costau Staff a Chostau Gweinyddol Eraill**

Mae'r holl gostau cyflog a chysylltiedig ar gyfer staff Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru wedi eu talu'n llawn o'r cyfrifon hyn.

Mae'r dulliau a ddefnyddir i ddyrannu costau wedi eu dyfeisio i roi'r adlewyrchiad mwyaf cywir o gostau rhedeg swyddfa Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru. Sail y dosrannu yw nifer yr achosion a dderbynnir ar gyfer pob awdurdodaeth.

1.11 **Cyfnewid Arian Tramor**

Mae trafodion busnes mewn arian tramor yn cael eu trosi'n sterling yn ôl y cyfraddau sydd mewn grym ar ddyddiad y trafodion hyn.

1.12 **Offerynnau Ariannol**

O dan FRS 13, *Derivatives and Other Financial Instruments*, rhaid datgelu'r rolau y mae offerynnau ariannol wedi eu cyflawni yn ystod y cyfnod dan sylw o ran creu neu newid y risgiau y mae corff yn ei wynebu wrth gyflawni ei weithgareddau. Oherwydd natur difasnach y rhan fwyaf o'i gweithgareddau, a'r modd y mae cyrff y llywodraeth yn cael eu hariannu, nid yw Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru wedi ei gyflwyno i'r un faint o risg ariannol ag a wynebir gan rai cyrff busnes. Yn ogystal, mae offerynnau ariannol yn chwarae rôl llawer fwy cyfyngedig o ran creu neu newid risg nag a fyddai'n nodweddiadol ar gyfer y cwmnïau a restrir ac y mae FRS13 yn bennaf berthnasol iddynt. Cynhyrchir asedau ac ymrwymïadau ariannol gan weithgareddau gweithredu o ddydd i ddydd ac ni thbyr eu bod yn newid y risgiau a wynebir gan y Swyddfa wrth gyflawni ei gweithgareddau. Arian parod yw unig offeryn ariannol Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru.

2. CYSONI ADNODDAU A'R GOFYNION ARIAN PAROD NET

	<i>Nodyn</i>	<i>Amcangyfrif 2005-06 £000</i>	<i>Ffigurau terfynol 2005-06 £000</i>	<i>Cyfanswm yr alldro net o'i gymharu â'r arbediad/(gormodedd) a amcangyfrifwyd £000</i>	<i>Ffigurau terfynol 2004-05 £000</i>
<i>Cyfanswm Net alldro adnoddau'r Datganiad Costau Gweithredu</i>		2624	2294	330	1797
<i>Caffael asedau sefydlog</i>	6/7	57	43	14	493
<i>Addasiadau croniadau:</i>					
<i>Eitemau heb fod yn rhai ariannol</i>	3/4	-	(36)	36	(60)
<i>Newidiadau cyfalaf gweithio ar wahân i arian parod</i>	6	-	562	(562)	(511)
<i>Defnyddio darpariaethau</i>	11	-	89	(89)	4
<i>Gofyniad net o ran arian Datganiad Llif Arian</i>		2681	2952	(271)	1723

Eglurhad o'r gwahaniaeth rhwng yr Amcangyfrif o ran Gofyniad Arian Parod Net a'r Ffigurau Terfynol:

Achoswyd y gwahaniaeth hwn gan ansicrwydd ar ddiwedd y flwyddyn dros ariannu'r diffygio o ganlyniad i aelodaeth o'r Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol.

3. Niferoedd a Chostau Staff

Yr oedd nifer gyfartalog y staff a gyflogwyd ar sail cyfwerth ag amser cyflawn (gan gynnwys uwch reolwyr) yn ystod y flwyddyn fel a ganlyn:

	2005-06	2004-5
	Nifer	Nifer
Ymchwilio i gwynion	23	20
Staff sefydliad a chefnogi	11	9
Cyfanswm	34	29

Dyma'r costau cyflogi cyfunol:

	2005-06	2004-05
	£000	£000
Staff parhaol		
Cyflogau	1094	863
Costau Nawdd Cymdeithasol	90	77
Costau pensiwn eraill	212	140
	1396	1080
Staff dros dro	89	21
Costau Nawdd Cymdeithasol	1	1
	90	22
Eitemau heb fod yn rhai ariannol		
Wedi'u codi ar ddarpariaethau ar gyfer pensiynau'r cyn-ombwdsmon a Chostau Ymddeol yn Gynnar	17	134
Cost Cyllid Pensiwn net	(30)	30
Is-gyfanswm	(13)	164
Cyfanswm costau cyflogaeth	1473	1266

Mae costau staff dros dro yn cynnwys staff ar secondiad, pobl ar gontractau dros dro a staff asiantaeth.

Mae dau gynllun pensiwn yn cael eu gweithredu ar ran y staff presennol. Mae rhwymedigaeth barhaus i dalu pensiynau cyn-ombwdsmon.

Prif Gynllun Pensiwn y Llywodraeth

Mae Prif Gynllun Pensiwn y Gwasanaeth Sifil (PCSPS) yn gynllun budd diffiniedig, aml-gyflogwr, heb gyllid. Ni all Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru nodi ei gyfran o'r asedau a'r rhwymedigaethau gwaelodol. Prisiwyd y cynllun gan Actiari'r Cynllun ar 31 Mawrth 2003. Mae manylion ar gael yn Adroddiadau Ariannol Swyddfa'r Cabinet: Pensiwn Sifil (www.civilservice-pensions.gov.uk). Ar gyfer 2005-06, yr oedd cyfraniadau cyflogwr o £128k yn daladwy i Brif Gynllun Pensiwn y Gwasanaeth Sifil (2004-05 £58k) ar gyfraddau rhwng 16.2 a 24.6 y cant o gyflog pensiynadwy, ar sail bandiau cyflog (roedd cyfraddau 2004-5 rhwng 12% a 18.5%). Mae Actiari'r Cynllun yn adolygu cyfraniadau'r cyflogwr bob pedair blynedd ar ôl gwerthuso'r cynllun yn llawn. O 2006-07 caiff y bandiau cyflog eu hadolygu a bydd y cyfraddau rhwng 17.1% a 25.5%. Mae'r cyfraddau cyfrannu wedi'u gosod i dalu costau'r buddion sy'n cronni yn ystod 2005-06 i'w talu pan fydd yr aelod yn ymddeol, ac nid y buddion a delir yn ystod y cyfnod hwn i bobl sydd eisoes yn bensiynwyr.

Dyma fanylion y gwahanol gynlluniau gydag aelodau gweithredol:

(a) Y Cynllun Clasurol

Mae budd-daliadau yn cronni yn ôl cyfradd o 1/80fed o'r cyflog pensiynadwy am bob blwyddyn o wasanaethu. Yn ogystal, telir cyfandaliad sydd gyfwerth â phensiwn tair blynedd ar adeg ymddeol. Mae'r aelodau'n talu cyfraniadau sy'n 1.5 y cant o'u henillion pensiynadwy. Os bydd gweithiwr yn marw, telir y pensiwn i'r gŵr neu wraig weddw ar gyfradd o hanner pensiwn y gweithiwr. Ar farwolaeth yr aelod mewn gwaith, mae'r cynllun yn talu budd cyfandaliad sy'n cyfateb i ddwywaith y cyflog pensiynadwy a, hefyd, mae'n darparu ychwanegiad at wasanaeth ar ôl cyfrifo pensiwn y cymar. Mae'r ychwanegiad yn dibynnu ar hyd y gwasanaeth ac ni all fod yn hwy na 10 mlynedd. Mae ymddeoliad meddygol yn bosibl mewn achos o waeledd difrifol. Mewn achos o'r fath, telir y pensiwn ar unwaith heb ostyngiad actiwaraidd a chydag ychwanegiad at wasanaeth fel gyda phensiynau gweddwon.

(b) Y Cynllun Premiwm

Mae'r buddion yn cronni ar gyfradd o 1/60^{fed} o'r cyflog pensiynadwy am bob blwyddyn o wasanaeth. Yn wahanol i'r cynllun clasurol, does dim cyfandaliad awtomatig, ond gall aelodau gymudo rhywfaint o'u pensiwn i ddarparu cyfandaliad hyd at uchafswm o 3/80fed o'r cyflog pensiynadwy terfynol am bob blwyddyn o wasanaeth neu 2.25 gwaith y pensiwn os yw'n fwy (y gyfradd gymudo yw £12 o gyfandaliad am bob £1 o'r pensiwn a roddir i fyny). At ddibenion datgelu pensiwn, mae'r tablau'n tybio'r cymudo uchaf posibl. Mae aelodau yn talu cyfraniadau o 3.5 y cant o'u henillion pensiynadwy. Ar ôl marw, telir pensiwn i'r gŵr neu'r wraig weddw neu i bartner cymwys ar gyfradd o 3/80fed o'r pensiwn yr aelod (cyn cymudo). Os bydd y gweithiwr yn marw mewn swydd, mae'r cynllun yn talu cyfandaliad sy'n dair gwaith yr enillion pensiynadwy a hefyd yn ychwanegu at hyd y gwasanaeth wrth gyfrifo pensiwn y gŵr neu'r wraig weddw. Mae'r ychwanegiad yn dibynnu ar hyd y gwasanaeth ac ni all fod yn fwy na 10 mlynedd.

Mae ymddeoliad meddygol yn bosibl mewn achos o waeledd difrifol. Yn yr achos hwn, telir y pensiwn ar unwaith heb unrhyw ostyngiad actiwaraidd. Lle mae gwaeledd yr aelod o'r fath fel ei fod yn eu hatal yn barhaol rhag cyflawni unrhyw waith cyflogedig arall, ychwanegir at y gwasanaeth i'r hyn y byddai'r gweithiwr wedi'i gronni yn 60 oed.

(c) Clasuroi a Mwy

Amrywiad ar y cynllun premiwm yw hwn yn y bôn, ond gyda'r buddion o ran gwasanaeth cyn 1 Hydref 2002 yn cael eu cyfrifo'n gyffredinol yn ôl y cynllun clasuroi.

Nid oedd unrhyw gyfraniadau'n daladwy nac wedi'u talu ymlaen llaw i ddarparwyr pensiwn partneriaeth ar ddyddiad y fantolen.

Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol

Yn ogystal, mae'r Comisiwn dros Weinyddu Lleol yng Nghymru yn cymryd rhan yn y Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol (y Gronfa). Mae'r Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol yn darparu budd-daliadau diffiniedig, sy'n seiliedig ar gyflog pensiynadwy terfynol aelodau.

Yn unol â Safon Adrodd Ariannol Rhif 17 – Budd-daliadau Ymddeol (FRS 17), mae'n ofynnol i ddatgelu peth gwybodaeth benodol i ymwneud ag asedau, rhwymedigaethau, incwm a gwariant sy'n berthynol i gynlluniau pensiwn.

Cynhaliwyd y prisiad actiwaraid diweddaraf o Gronfa Bensiwn Caerdydd a Bro Morgannwg ar 31 Mawrth 2004. Ar ôl yr adolygiad hwnnw, roedd y cyfraddau cyfrannu ardystiedig ar gyfer y Comisiwn dros Weinyddu Lleol yng Nghymru ym mhrisiad 31 Mawrth 2004 fel a ganlyn:

Ebrill 2004 hyd at Fawrth 2005	300% o gyfraniadau'r aelodau o 6%
Ebrill 2005 hyd at Fawrth 2006	324% o gyfraniadau'r aelodau o 6%
Ebrill 2006 hyd at Fawrth 2007	348% o gyfraniadau'r aelodau o 6%
Ebrill 2007 hyd at Fawrth 2008	372% o gyfraniadau'r aelodau o 6%

Yr oedd cyfradd gyfrannu'r Comisiwn dros Weinyddu Lleol yng Nghymru dros y cyfnod cyfrifyddu yn 324% o gyfraniad yr aelodau (yn gyfwerth i 19.44% o gyflog pensiynadwy).

Tybiaethau

Dyma'r prif dybiaethau a ddefnyddiwyd gan yr actiwarïaid cymwysedig annibynnol i ddiweddarau prisiad diweddaraf y Gronfa at ddibenion FRS17:

	31 Mawrth 2006	1 Ebrill 2005	31 Mawrth 2005
	% y fl.	% y fl.	% y fl.
Cyfradd chwyddiant	2.5	3.1	3.1
Cyfradd cynnydd mewn cyflogau	4.0	4.6	4.6
Cyfradd cynnydd mewn pensiynau	2.5	3.1	3.1
Cyfradd cynnydd mewn pensiynau gohiriedig	2.5	3.1	3.1
Cyfran o gyflogwyr sy'n dewis cymryd cyfandaliad wedi'i gymudo	50%	Amh.	Amh.
Cyfradd disgownt	5.4	5.9	6.6

Mae newidiadau i'r Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol yn caniatáu i weithwyr sy'n ymddeol ar 6 Ebrill 2006 neu wedi hynny gymryd cynnydd yn eu cyfandaliad adeg ymddeol yn gyfnewid am leihau eu pensiwn blynyddol yn y dyfodol. Ar gyngor ein actiwariad, tybiwyd y bydd 50% o weithwyr sy'n ymddeol ar ôl 6 Ebrill 2006 yn cymryd mantais o'r newid hwn i'r cynllun pensiwn. Mae ein actiwariad wedi dweud wrthym y bydd hyn yn lleihau gwerth y rhwymedigaethau pensiwn o £70k ac mae hwn wedi'i gynnwys yn y Costau Staff yn y Datganiad Costau Gweithredu. Gan fod y Rheoliadau wedi'u newid ym mis Ebrill 2006, nid oes gan ein hactiwariad unrhyw ddata ar faint o bobl sy'n dewis gwneud hyn, ond maent yn ystyried bod 50% yn dybiaeth deg a rhesymol.

Cronfa Bensiwn Caerdydd a Bro Morgannwg

Hysbyswyd yr actiwari mai gwerth y farchnad Cronfa Bensiwn Caerdydd a Bro Morgannwg ar 31 Mawrth 2006 oedd £801.31 miliwn. Amlinellir gwerth yr asedau ar y dyddiad cyfrifyddu isod.

	31 Mawrth 2006		31 Mawrth 2005	
	Cyfradd adennill tymor hir a ddisgwyllir (% p.a).	Gwerth a amcan- gyfrifir (£M)	Cyfradd adennill tymor hir a ddisgwyllir (% p.a).	Gwerth a amcan- gyfrifir (£M)
Ecwitiâu	7.3	624.39	7.7	477.05
Eiddo	6.3	35.32	6.7	29.99
Bondiau'r Llywodraeth	4.3	35.06	4.7	15.14
Bondiau Corfforaethol	4.9	94.18	5.3	78.23
Arall	<u>4.6</u>	<u>12.36</u>	<u>4.8</u>	<u>24.97</u>
Cyfanswm	6.8	801.31	7.2	625.38

Sefyllfa cyllid

	31 Mawrth	
	2006 £000	2005 £000
Cyfran yr asedau	2780	2180
Ymrwymadau tybiedig wedi eu cyllido	<u>(3620)</u>	<u>(3100)</u>
Diffyg y Comisiwn dros Weinyddu Lleol yng Nghymru	<u>(840)</u>	<u>(920)</u>

Dadansoddiad o'r swm a gynhwysir yn y Costau Gwasanaethau Net

	31 Mawrth	
	2006 £000	2005 £000
Cost y gwasanaeth cyfredol	70	70
Costau'r gwasanaeth yn y gorffennol	<u>(70)</u>	<u>0</u>
Cyfanswm costau gwasanaethau net	<u>0</u>	<u>70</u>

Dadansoddiad o incwm a chostau ariannu

	31 Mawrth	
	2006	2005
	£000	£000
Adenillion a ddisgwylir ar asedau'r cynllun pensiwn	160	120
Llog ar rwymedigaethau'r cynllun pensiwn	<u>(210)</u>	<u>(160)</u>
Adenillion net	<u>(50)</u>	<u>(40)</u>

Dadansoddiad o'r swm a gydnabyddir yn y Datganiad o Gyfanswm y Symudiad mewn Cronfeydd

	31 Mawrth	
	2006	2005
	£000	£000
Adenillion go iawn heb gynnwys yr adenillion a ddisgwylir ar asedau'r cynllun pensiwn	390	110
Enillion a cholledion a brofwyd ar rwymedigaethau'r cynllun	(60)	(210)
Newidiadau mewn tybiaethau sy'n sail i werth cyfredol rhwymedigaethau'r cynllun sy'n ymwneud â'r newid yng nghyfradd y disgownt gwirioneddol	(330)	(20)
Arall	<u>50</u>	<u>0</u>
Cyfanswm enillion/(colledion) actiwaraid	<u>50</u>	<u>(120)</u>

Dadansoddiad o'r symudiad yn ystod y flwyddyn

	31 Mawrth	
	2006	2005
	£000	£000
Diffyg yn y cynllun ar ddechrau'r flwyddyn	(920)	(770)
Cyfraniadau tuag at rwymedigaethau a ariennir	80	80
Cost y gwasanaeth cyfredol	70	(70)
Costau'r gwasanaeth yn y gorffennol	(70)	0
Incwm cyllid arall	(50)	(40)
Enillion/(colledion) actiwaraid	<u>50</u>	<u>(120)</u>
Diffyg yn y cynllun ar ddiwedd y flwyddyn	<u>(840)</u>	<u>(920)</u>

Hanes o enillion a cholledion a brofwyd

	31 Mawrth	
	2006	2005
Y gwahaniaeth rhwng yr adenillion disgwyliedig a'r adenillion go iawn ar asedau'r cynllun		
Swm	£390k	£110k
Canran asedau'r cynllun	14.0%	5.0%

Enillion (colledion) a brofwyd ar rwymedigaethau'r cynllun		
Swm	£80k	(£210k)
Canran gwerth cyfredol rhwymedigaethau'r cynllun	2.2%	-6.8%

Y gwahaniaeth rhwng yr adenillion disgwylidig a'r adenillion go iawn ar asedau'r cynllun

Swm	(£280k)	(£20k)
Canran gwerth cyfredol rhwymedigaethau'r cynllun	7.7%	-0.6%

Enillion a brofwyd ar rwymedigaethau'r cynllun

Swm	£50k	(£120K)
Canran gwerth cyfredol rhwymedigaethau'r cynllun	1.4%	-3.9%

Ar ddiwedd y flwyddyn ariannol, roedd ansicrwydd sylweddol o ran cymhwysedd yr aelodau hynny oedd yn dymuno aros yn aelodau o'r cynllun pensiwn Llywodraeth Leol. Daeth hyn o ganlyniad i ymrwymiad a roddwyd gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru y câi unrhyw weithwyr presennol sy'n aelodau aros ar y Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol, os dymument. Bu pryderon am unigolion yn methu aros ar y Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol pan oedd ganddynt hawl i fod yn aelod o Brif Gynllun Pensiwn y Gwasanaeth Sifil. Er mwyn goresgyn hyn, awdurdodwyd SI 1011 2006 gan Lywydd Cynulliad Cenedlaethol Cymru ar 31 Mawrth 2006 a dirymodd y staff eu hawl i fod yn aelodau o Brif Gynllun Pensiwn y Gwasanaeth Sifil tan yr oedd ganddynt ddigon o wybodaeth i benderfynu ar y cynllun mwyaf priodol. Ni fydd unrhyw aelodau newydd o'r Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol, gan ei fod wedi'i gau. Dim ond ar gyfer Prif Gynllun Pensiwn y Gwasanaeth Sifil y bydd gweithwyr newydd Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru'n gymwys.

Pensiynau i gyn-Ombwdsmyrn

Gyda chytundeb Ysgrifennydd Gwladol Cymru yn 1991, a chadarnhad dilynol gan Offeryn Statudol 1993 Rhif 1367, daeth Comisiynwyr yn gymwys i ymuno â'r Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol. Fodd bynnag, mae pensiynau'r tri Chomisiynydd Llywodraeth Leol blaenorol yn aros yn gyfrifoldeb y Comisiwn Gweinyddiaeth Leol, ac yn cael eu cwrdd o'r cyfrif incwm a gwariant. Mae'r pensiynau yn cael eu cynyddu'n flynyddol yn unol â'r Gorchymyn Cynyddu Pensiynau. Yr oedd cyfanswm y taliadau a wnaed yn ystod 2005/6 yn £67k (£65k yn 2004/5).

Mae'r rhwymedigaethau sy'n codi o'r rheidrwydd i gyllido'r pensiynau hyn, ynghyd ag unrhyw bensiynau dibynyddion, wedi eu cyfrifo i fod yn £769k (2005 £821k). Cyfrifwyd hyn yn fewnol drwy ddefnyddio tablau disgwyliadau oes ar gyfer dynion a merched yng Nghymru oddi ar wefan Adran Actiwari'r Llywodraeth. Dangosir manylion pellach dan symudiadau mewn darpariaethau (Nodyn 12)

4. **Costau Gweinyddol heb fod yn rhai staff**

	2005-06	2004-05
	£000	£000
Rhenti o dan brydlesi gweithredu	294	119
Tâl Gwasanaeth Canolog	-	54
Ffi Archwilwyr Allanol	17	12
Teithio a Chynhaliaeth	51	28
Gwasanaeth Ymgynghorol Proffesiynol	97	87
Tâl am wasanaeth ar gyfer asedau sefydlog	-	16
Nwyddau swyddfa, cyfarpar a gwasanaethau Is-gyfanswm	<u>320</u>	201
	779	517
Dibrisiant ac amorteiddio	88	78
Cost credyd cyfalaf	(39)	(48)
Is-gyfanswm	<u>49</u>	<u>30</u>
Cyfanswm y Costau Gweinyddol Eraill	<u>828</u>	<u>547</u>

Mae cost y swyddfeydd, a nodir fel rhenti o dan brydlesau gweithredu, yn cynnwys taliadau gwasanaeth sy'n rhan annatod o'r brydles a chost trethi'r adeiladau. Ond nid yw'r symiau a ddatgelir yn Nodyn 11 – Ymrwymadau o dan Brydlesau – yng nghyswllt tir ac adeiladau, ond yn cynnwys costau contractau rhenti a gwasanaeth tymor hir.

5. **Incwm Gweithredu**

Daw'r rhan fwyaf o'r incwm a dderbynnir o fuddsoddi cyllid dros ben yn y tymor byr

	2005-06	2004-05
	£000	£000
Llog derbyniadwy	6	11
Incwm arall	<u>1</u>	<u>5</u>
	<u>7</u>	<u>16</u>

6. Asedau Sefydlog Diriaethol

	Gwaith ffitio	Cyfarpar Technole g Gwyboda eth	Dodrefn a ffitiadau eraill	Cyfarpar ffôn	Cyfansw m
	£000	£000	£000	£000	£000
Cost neu brisiad ar 1 Ebrill 2005	174	44	92	22	332
Ychwanegiadau	12	12	13		37
Gwarediadau	-	-	-	-	-
Ar 31 Mawrth 2006	186	56	105	22	369
Dibrisiant Ar 1 Ebrill 2005	17	15	9	2	43
Codwyd yn y flwyddyn	19	19	11	2	51
Gwarediadau	-	-	-	-	-
Ar 31 Mawrth 2006	36	34	20	4	94
NBV ar 31 Mawrth 2006	150	22	85	18	275
NBV ar 31 Mawrth 2005	157	29	83	20	289

7. Asedau Sefydlog Anniriaethol

Yn ystod y flwyddyn, prynwyd system gyfrifiadurol newydd i fonitro cwynion. Er bod perchennogaeth y feddalwedd yn aros gydag Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus yr Alban, talodd y Swyddfa hon gostau datblygu a ffi trwydded i ddefnyddio'r system. Yn ogystal, prynwyd meddalwedd priodoldeb ar gyfer prosesau swyddfa. Dyma'r manylion:

	2005-06	2004-05
	£000	£000
Cost neu Brisiad ar 1 Ebrill	161	-
Ychwanegiadau yn ystod y flwyddyn	6	161
Cyfanswm	<u>167</u>	<u>161</u>
Amorteiddio ar Ebrill 1	(35)	0
Amorteiddio yn ystod y flwyddyn	(37)	(35)
Cyfanswm	<u>(72)</u>	<u>(35)</u>
Gwerth net ar bapur ar 31 Mawrth	95	126

8. Dyledwyr

Symiau sy'n daladwy o fewn blwyddyn:

Gan adrannau o'r Llywodraeth

Gan bartïon eraill

Rhagdaliadau

2005-06	2004-05
£000	£000
168	43
2	2
96	21
266	66

Y brif ddyled sydd heb ei thalu yw adennill y Dreth ar Werth sy'n codi o weithgareddau'r Comisiwn dros Weinyddu Lleol yng Nghymru.

9. Arian yn y Banc ac mewn Llaw

Gweithredir y prif gyfrifon banc o dan enw'r Comisiwn dros Weinyddu Lleol yng Nghymru tan 31 Mawrth 2006, pan newidiwyd hwy i Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru.

10. Credydwyr

Symiau sy'n daladwy mewn blwyddyn

Symiau sy'n ddyledus i'r Casglwr Trethi

Symiau sy'n ddyledus i'r Comisiynydd Seneddol

Credydwyr masnachol

Symiau sy'n daladwy mewn mwy na blwyddyn

Credydwyr masnach

Cyfanswm

2005-06	2004-05
£000	£000
4	16
32	188
145	402
181	606
63	-
244	606

Mae lefel uchel y credydwy'r yn 2004-5 wedi digwydd o ganlyniad i gydleoli Pen-y-bont ar Ogwr a Chaerdydd ar un safle ym Mharc Bocam. Nid yn unig y cyfunwyd y ddwy swyddfa ychydig cyn diwedd y flwyddyn, ond achoswyd gwariant ar ffitio'r swyddfeydd a chostau dodrefn a systemau cyfrifiadurol newydd yn ystod rhan olaf y flwyddyn ariannol.

11. Darpariaethau ar gyfer rhwymedigaethau a thaliadau

	2005-06		2004-05	
	Ymddeol yn gynnar £000	Pensiynau i Gyn- Gomisiynwyr £000	Cyfanswm £000	Cyfanswm £000
Balans ar 1 Ebrill	63	821	884	888
Darparwyd yn y flwyddyn	2	15	17	134
Darpariaethau a ddefnyddiwyd yn y flwyddyn	(22)	(67)	(89)	(138)
Balans ar 31 Mawrth	43	769	812	884

12. Ymrwymadau o dan Brydlesi Gweithredol

	2005-06		2004-5	
	Adeiladau £000	Arall £000	Adeiladau £000	Arall £000
Ar 31 Mawrth 2006, yr oedd y Swyddfa wedi ymrwymo i wneud y taliadau canlynol yn ystod y flwyddyn nesaf yng nghyswllt prydlesi gweithredol a fyddai'n dod i ben:				
o fewn blwyddyn	44	-	18	-
mewn rhwng dwy a phum mlynedd	-	4	77	4
Ar ôl pum mlynedd	170	-	149	-
	214	4	244	4

Mae'r costau a ddangosir o fewn blwyddyn yn ymwneud â swydd sydd wedi'i gwagio a daw'r brydles i ben ym mis Mawrth 2007.

13. Rhwymedigaethau amodol

Mae'r diffyg sy'n codi o gau rhan y Comisiwn dros Weinyddu Lleol yng Nghymru o'r Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol, a sut i'w ariannu, wrthi'n cael ei gyfrifo. Y diweddaraf o'r Actiwari yw y bydd y diffyg adeg cau yn £1.5 miliwn. Nid yw Cynulliad Cenedlaethol Cymru wedi penderfynu eto ar gyfnod i fodloni ei ymrwymiad i ariannu'r diffyg.

Nid yw'r sail derfynol ar gyfer adennill cyfanswm TAW o £124k ar gyfer 2005-06 wedi'i threfnu eto gyda Chyllid a Thollau EM. Mae'r Ombwdsmon yn ystyried bod y dull dosrannu a ddefnyddiwyd yn 2005-06 yn briodol. Nid oes unrhyw symiau pellach yn daladwy, oherwydd dan Ddeddf Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus (Cymru) 2005, nid oes hawl adennill TAW o 1 Ebrill 2006 ymlaen.

14. Ymrwymadau Cyfalaf

Nid oedd unrhyw ymrwymadau cyfalaf ar 31 Mawrth 2006

15. Y Gronfa Gyffredinol

	2005-06	2004-05
	£000	£000
Y Gronfa Gyffredinol ar 1^{af} Ebrill	(1300)	(1458)
Costau gweithredu net	(2294)	(1797)
Cyllid gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru	2681	2123
Cost Credyd Cyfalaf	(39)	(48)
Symudiad mewn diffyg o ran pensiynau	50	(120)
Y Gronfa Gyffredinol ar 31^{ain} Mawrth	(902)	(1300)

16. Cysoni'r costau gweithredu â'r llifoedd arian gweithredu

	Nodiadau	2005-06	2004-05
		£000	£000
Costau gweithredu net		(2294)	(1797)
Addasu ar gyfer eitemau anariannol	3,4	36	194
(Cynnydd) / gostyngiad o ran dyledwyr	9	(200)	(6)
Cynnydd / (gostyngiad) o ran credydwyr	11	(362)	517
Llai symudiad mewn credydwyr sy'n ymwneud ag eitemau sydd ddim yn pasio trwy'r OCS		349	(349)
Defnyddio darpariaethau		(89)	(138)
All-lif arian clir o weithgareddau gweithredu		(2560)	(1579)

17. Gwariant Cyfalaf a buddsoddi ariannol

	2005-6	2004-5
	£000	£000
Ychwanegiadau asedau sefydlog diriaethol	(227)	(142)
Ychwanegiadau asedau sefydlog anniriaethol	(165)	(2)
All-lif arian net o weithgareddau buddsoddi	<u>(392)</u>	<u>(144)</u>

18. Cysoni'r gofyniad arian parod net â'r cynnydd/(lleihad) mewn arian parod

	2005-6	2004-5
	£000	£000
Gofynion Arian Parod Net	(2952)	(1723)
Cyllid gan y Cynulliad	2681	2123
(Gostyngiad)/Cynnydd mewn arian	<u>(271)</u>	<u>400</u>

19. Paratoi Adnoddau yn ôl Nodau ac Amcanion yr Adran

Mae gan Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru un prif nod, sef delio â chwynion sy'n cael eu cyfeirio i'r Ombwdsmon hwn yn ddiuedd, yn wrthrychol, yn effeithiol ac yn ddiymdroi. Dyrannwyd cost y gwahanol swyddfeydd fel a ganlyn:

(a) caiff costau sy'n benodol i'r swyddfa eu priodoli'n uniongyrchol i'r awdurdodaethau hynny

(b) caiff costau gweinyddol a sefydliad eu priodoli i'r swyddfeydd priodol yn unol â'r cwynion a dderbyniwyd dan y gwahanol awdurdodaethau.

20. Trafodion Busnes Partïon Perthynol

Mae'r Ombwdsmon yn gorfforaeth un aelod a sefydlwyd dan statud ac mae wedi cynnal nifer o drafodion materol gyda Chynulliad Cenedlaethol Cymru. Mae'r Ombwdsmon hefyd wedi cynnal trafodion materol gyda Swyddfa'r Comisiynydd Gweinyddiaeth Seneddol a Chomisiynydd Gwasanaeth Iechyd Lloegr. Yn ogystal, cafodd Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru nifer fach o drafodion busnes gydag Adrannau eraill o'r Llywodraeth a chyrrff eraill sy'n perthyn i'r llywodraeth ganolog.

Cafwyd un trafodiad arwyddocaol gyda phartner un o aelodau'r tîm rheoli lle y cynigiwyd ac y derbyniwyd £2k ar gyfer nifer o eitemau o ddodrefn swyddfa a oedd dros ben, offer swyddfa a chyfrifiaduron a oedd i'w symud oddi yno a'u dinistrio. Aseswyd y cynnig a phenderfynu ei fod yn cynrychioli gwerth am arian ac ystyried gwerth yr eitemau dan sylw a pha mor werthadwy yr oeddent (gan fod eu gwerth wedi ei ddiddymu'n llwyr oddi ar y llyfrau) a chost debygol symud yr eitemau oddi yno a chael gwared ohonynt. Mae'r swm wedi'i gynnwys o fewn dyledwyr yn y cyfrifon hyn.

Nid yw Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru, y Comisiynydd Gweinyddiaeth Seneddol na'r Comisiynydd Gwasanaeth Iechyd ar gyfer Lloegr, nac ychwaith unrhyw aelodau o'u Tîmau Rheoli, wedi cyflawni unrhyw drafodion busnes materol gyda'r Ombwdsmon yn ystod y cyfnod adrodd dan sylw.